Prifysgol Abertawe

Llawlyfr i Fyfyrwyr ag anableddau

Gwybodaeth ar gyfer Myfyrwyr ag Anableddau, â Chyflyrau Meddygol, ag Anawsterau Iechyd Meddwl ac ag Anghenion Penodol

student **support** services

disability

Cynnwys

1.	**Cyflwyniad**	3
1.2	Beth rydym yn ei wneud?	3
1.3	Pwy sy'n gallu cael cymorth?	3
2.	**Datgelu anabledd**	4
3.	**Cyfrinachedd**	5
4.	**Pa gymorth sydd ar gael?**	5
4.1	Hygyrchedd	5
4.2	Hygyrchedd i'r rheiny sydd â phroblemau symudedd a'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn	5
4.3	Parcio hygyrch	5
4.4	Hygyrchedd i'r rheiny sydd â nam ar eu clyw	6
4.5	Hygyrchedd i'r rheiny sydd â nam ar eu golwg	6
5.	**Llety**	8
5.1	Sut i benderfynu pa fath o lety sy'n gweddu i chi?	8
6.	**Cyllid**	9
6.1	Sut a phryd y dylech gyflwyno cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl	9
6.2	Cyllid i fyfyrwyr rhan amser a myfyrwyr ôl-raddedig	10
6.3	Cyllid i fyfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr o'r UE	10
7.	**Beth yw Asesiad Anghenion?**	11
8.	**Cymorth gyda Gofal Personol**	11
9.	**Profion Diagnostig ar gyfer Dyslecsia/ Anawsterau Dysgu Penodol**	12
10.	**Hyfforddiant Arbenigol**	12
11.	**Cymryd nodiadau a Chynllun Gweithiwr Cymorth**	13
12.	**Iechyd Meddwl a Lles**	13
13.	**Trefniadau Arholiad amgen**	14
14.	**Myfyrwyr Rhyngwladol**	15
15.	**Sut i gysylltu â ni**	16

1. Cyflwyniad

Croeso i Brifysgol Abertawe. Nod y llyfryn hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am ddarpariaeth cymorth gyfredol a gynigir gan y Swyddfa Anabledd a sut y gallwch gael gafael ar y cymorth. Gobeithiwn y bydd o ddefnydd i chi o ran ateb rhai o'r cwestiynau a all fod gennych. Nid yw'n bosibl ymdrin yn fanwl â phob anabledd neu gyflwr meddygol yn y llyfryn byr hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiwn nad ydym wedi delio ag ef yn y llyfryn hwn, cysylltwch â ni er mwyn ei drafod ymhellach.

1.2 Beth rydym yn ei wneud?

Mae'r Swyddfa Anabledd yn darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth i fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr Prifysgol Abertawe. Byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu cynllun cymorth unigol a fydd yn diwallu'ch anghenion o'r adeg pan fyddwch yn cyflwyno cais hyd y diwrnod y byddwch yn graddio.

1.3 Pwy sy'n gallu cael cymorth?

Rydym yn rhoi cymorth i fyfyrwyr ag ystod o anableddau a chyflyrau meddygol, gan gynnwys:

- Problemau symudedd
- Nam ar y Synhwyrau
- Problemau Iechyd Meddwl
- Cyflyrau meddygol tymor hir megis ME, sglerosis ymledol, diabetes, epilepsi, RSI (anaf straen ailadroddus).
- Dyslecsia, Dyspracsia ac Anawsterau Dysgu Penodol (SpLDs).

Os ydych yn fyfyriwr Prifysgol Abertawe, neu os ydych yn ystyried bod yn fyfyriwr yn y dyfodol, cysylltwch â ni i drafod eich anghenion cymorth ymhellach.

2. Datgelu anabledd

Nid yw bob amser yn hawdd rhoi gwybod i bobl eraill am eich anabledd neu'ch cyflwr meddygol. Nid oes rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth am eich anabledd neu'ch cyflwr meddygol; chi biau'r dewis.

Gallwch ddatgelu anabledd unrhyw bryd yn ystod eich amser yn y Brifysgol. Fodd bynnag, rydym yn eich annog yn gryf i ddatgelu'ch anabledd neu'ch anhawster dysgu penodol y cyfle cyntaf a gewch. Bydd hyn yn galluogi staff y Brifysgol i ddarparu cymorth a chefnogaeth sy'n gweddu i'ch anghenion unigol. Pa bryd bynnag yr ydych yn penderfynu datgelu anabledd neu gyflwr meddygol, bydd staff y Swyddfa Anabledd ar gael i gynnig cymorth, cyngor a chyfarwyddyd.

Os ydych yn penderfynu rhoi gwybod i'r Swyddfa Anabledd fod gennych anabledd neu gyflwr meddygol, gallwn helpu i ddarparu'r cymorth y gall fod ei angen arnoch tra ydych yn fyfyriwr. Dyma rai o'r pethau rydym yn gallu eu gwneud ac sy'n gallu eich helpu i benderfynu a ydych am roi gwybod i ni am eich sefyllfa:

- Gallwn roi cyngor i chi ynglŷn â'r cyllid y mae gennych efallai hawl i'w dderbyn ac a fydd, o bosib, yn talu am y dreuliau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch anabledd neu'ch cyflwr meddygol
- Gallwn gysylltu â'ch adran academaidd a gwasanaethau cymorth eraill ar eich rhan i sicrhau eich bod yn derbyn y cymorth y mae ei angen arnoch - er enghraifft, gallwn drefnu mwy o amser mewn arholiadau
- Gallwn drefnu y caiff rhai llyfrau a deunydd arall eu cynhyrchu mewn fformat amgen sy'n gweddu orau i chi, er enghraifft, mewn print mawr neu mewn fformat digidol
- Gallwn drefnu consesiynau yn y llyfrgell sy'n gallu golygu bod modd i chi ddefnyddio'r adnoddau mewn ffordd fwy hyblyg
- Gallwn siarad â darlithwyr (gyda'ch caniatâd) i'w helpu i ddeall yn well yr anawsterau rydych yn eu hwynebu

3. Cyfrinachedd

Os ydych yn dewis rhoi gwybod i ni am eich anabledd neu'ch cyflwr meddygol, byddwn yn cadw'r wybodaeth honno yn gyfrinachol yn y Swyddfa Anabledd. Ni fyddwn yn datgelu'ch anabledd i staff eraill y Brifysgol heb gael eich caniatâd. Yr unig eithriad i'r rheol hon fyddai mewn achosion pan fyddech chi, neu bobl eraill mewn perygl a byddai'n rhaid i ni weithredu yn ôl ein dyletswydd o ofal.

4. Pa gymorth sydd ar gael?

Gobeithiwn y bydd y tudalennau canlynol yn rhoi gwybodaeth i chi am y math o gymorth a all fod ar gael i chi.

4.1 Hygyrchedd

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym am sicrhau bod y gwasanaethau a'r wybodaeth rydym yn eu darparu mor hygyrch â phosibl. Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn ag hygyrchedd nad ydym yn ymdrin â nhw yn y llyfryn hwn, cysylltwch â ni.

4.2 Hygyrchedd i'r rheiny sydd â phroblemau symudedd a'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn

Mae'r campws yn weddol fach ac yn wastad. Mae mwyafrif yr adeiladau yn fodern gyda rampiau mynediad, lifftiau a thoiledau hygyrch. Er hynny, rydym yn annog pob myfyriwr sydd â phroblemau symudedd i ymweld â'r campws cyn iddo gyflwyno cais er mwyn asesu a yw'r mynediad yn gweddu iddo.

4.3 Parcio ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae gan y Brifysgol fannau parcio i'r anabl ar y campws ond mae parcio i bawb yn gyfyngedig. Ni allwn warantu y bydd bob amser fannau ar gael.

Os yw'n hanfodol bod gennych gar oherwydd eich anabledd neu'ch cyflwr meddygol ac rydych yn ddeiliad Bathodyn Glas, bydd yn rhaid i chi gysylltu â'r Adran Ystadau i gael cerdyn barcio.

Os nad oes gennych Fathodyn Glas, efallai y byddwch yn cael eich cyfeirio at Ganolfan Iechyd Galwedigaethol y Brifysgol gan yr Adran Ystadau. Gellir cysylltu â'r Adran Ystadau drwy ffonio 01792 295240 am fwy o gyngor.

4.4 Hygyrchedd i'r rheiny sydd â nam ar eu clyw.

Mae gan nifer o brif fannau'r Brifysgol ddolenni clyw. Mewn mannau lle nad oes dolen clyw sefydlog, rydym yn cynghori myfyrwyr i ddefnyddio Lwfans Myfyrwyr Anabl (a drafodir yn nes ymlaen yn y llyfryn hwn) i brynu dolenni clyw oddi wrth eu AALl neu eu noddwr i helpu gyda'u gwaith astudio pob dydd.

Os ydych wedi dewis byw mewn Neuadd Breswyl ac ni allwch glywed larymau tân, gallwn drefnu i chi gael ystafell gyda larwm tân sy'n fflachio, lle y bo'n bosibl. Rydym yn cynghori pob myfyriwr y mae angen hyn arno i roi gwybod i'r Swyddfa Anabledd a'r Swyddfa Lety pan fydd yn cyflwyno cais am lety.

4.5 Hygyrchedd i'r rheiny sydd â nam ar eu golwg.

Mae'r cyfleusterau ar gyfer y rheiny sydd yn ddall neu sydd â nam ar eu golwg yn eithriadol o dda. Mae gan y Brifysgol Ganolfan Recordio i'r Deillion ar y campws gyda thair stiwdio recordio at safon ddarlledu. Mae'n un o'r canolfannau gorau o'i math unrhyw le yn y DU. Yn ogystal â chynhyrchu llawer o ddeunydd mewn fformat analog a digidol, mae'r ganolfan hefyd yn cynnig gwasanaeth Braille ac yn cynhyrchu diagramau cyffyrddadwy. Gall gynnig deunydd nid yn unig yn y Gymraeg ac yn Saesneg ond yn y rhan fwyaf o brif ieithoedd Ewrop hefyd. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan y Ganolfan Recordio i'r Deillion yn http://www.swan.ac.uk/lis/library/rcfb/

Yn ychwanegol, mae gan y llyfrgell feddalwedd arbenigol, gan gynnwys TextHelp ac Inspirations sydd ar gael ar bob CP mynediad agored er mwyn galluogi myfyrwyr i weithio ble bynnag y maent yn dewis. Mae gennym hefyd Supernova ar gofau bach USB y gall myfyrwyr eu defnyddio ar unrhyw CP mynediad agored. Ceir ystafell astudio yn y brif lyfrgell ar gyfer myfyrwyr â nam ar eu golwg lle y ceir gwahanol fathau o offer yn ogystal â lle i storio

pethau. Mae'n darparu man astudio dawel ddefnyddiol i fyfyrwyr sydd â nam ar eu golwg ac sydd wedi dewis byw oddi ar y campws. Mae Uwch Lyfrgellydd Anabledd ar gael i helpu myfyrwyr i gael gafael ar wybodaeth mewn fformat addas. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sue Miller ar (01792) 295047 neu e-bostiwch: S.Miller@abertawe.ac.uk

Mae llety i fyfyrwyr dall a myfyrwyr â nam ar eu golwg wedi cael ei haddasu'n arbennig ac mae croeso i gŵn tywys. Ceir rhwydwaith o lwybrau cyffyrddadwy ar y campws sydd wedi cael eu hailosod a'u hehangu fel rhan o Archwiliad Mynediad y Brifysgol yn 2005. Gellir trefnu hyfforddiant symudedd gyda hyfforddwr symudedd lleol neu os oes gennych gi tywys bydd y hyfforddiant hyn yn cael ei ddarparu gan Guide Dogs for the Blind a leolir yng Nghaerdydd. Yn ystod y broses ymrestru bydd Gweithwyr Cymorth ar gael i helpu'r rheiny sy'n gofyn am help.

Gellir llawrlwytho gwybodaeth gyffredinol am gampws Prifysgol Abertawe, yn ogystal â chyfeiriadau ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio ceir a thrafnidiaeth gyhoeddus a mapiau o'r wefan ganlynol: http://www.swansea.ac.uk/alumniandvisitors/MapsLocation/

Rydym yn eich cynghori'n gryf i gysylltu â'r Swyddfa Anabledd i drafod eich anghenion cymorth yn fanwl. Os yw'n bosibl, byddem hefyd yn eich annog i drefnu amser i ddod a chwrdd â'r tîm a staff y gwasanaethau cymorth eraill cyn neu wrth i chi gyflwyno cais.

5. Llety

Mae nifer o ystafelloedd yn y neuaddau preswyl ar y campws wedi cael eu haddasu mewn sawl ffordd i ddiwallu anghenion myfyrwyr ag anableddau.

Anogir unrhyw fyfyriwr sydd ag anabledd, cyflwr meddygol neu angen penodol a all gael effaith ar ddosbarthu llety i gysylltu â Gweithwyr Achos y Swyddfa Anabledd cyn gynted â phosibl.

Gall myfyrwyr ag anableddau corfforol fyw mewn llety preswyl trwy gydol eu cwrs yn y Brifysgol, os ydynt yn ei ddymuno. O ganlyniad, ceir nifer gyfyngedig o ystafelloedd sydd wedi cael eu haddasu'n llawn. Er mwyn osgoi cael eich siomi rydym yn eich cynghori'n gryf i gysylltu â'r Swyddfa Anabledd i drafod eich anghenion cyn i chi gyflwyno cais.

Am fwy o wybodaeth am y neuaddau preswyl, gan gynnwys cost a lleoliad, ewch i wefan y Swyddfa Lety:
http://www.swan.ac.uk/accommodation

5.1 Sut ydych yn penderfynu pa fath o lety fydd yn diwallu eich anghenion?

Dechrau da yw edrych ar beth sydd ar gael. Rydym yn falch iawn o drafod eich anghenion â chi. Mae gan y rhan fwyaf o neuaddau preswyl rai ystafelloedd wedi'u haddasu. Mae'r rhain yn ystafelloedd sy'n fwy na'r ystafelloedd safonol ac wedi cael eu haddasu ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Rydym yn gwybod yn iawn nad yw'r rheiny yn diwallu pob angen o reidrwydd ac mewn rhai achosion gallwn efallai wneud mwy o addasiadau i gwrdd ag anghenion penodol. Os oes angen ystafell wedi'i haddasu arnoch neu os ydych yn ansicr am ba neuadd breswyl fyddai'n gweddu orau i chi, cysylltwch â ni.



6. Cyllid

Os oes gennych anabledd, cyflwr meddygol neu anhawster dysgu penodol, mae'n bosibl bod gennych hawl i dderbyn arian oddi wrth y Lwfans Myfyrwyr Anabl. Nid oes rhaid i chi fod yn berson anabl cofrestredig i gyflwyno cais ac ni fydd eich cais yn destun prawf modd.

Diben y lwfans hwn yw talu am unrhyw gostau neu dreuliau ychwanegol sy'n codi oherwydd eich anabledd wrth i chi astudio. **Ni ddylid ei ddefnyddio i dalu am**:

- Costau sy'n gysylltiedig i'ch anabledd ac a fyddai gennych a oeddech yn fyfyriwr ai peidio
- Costau astudio a allai fod gan bob myfyriwr
- Gofal Personol. Cysylltwch ag un o'n Gweithwyr Achos Anabledd os ydych am gael cyngor ar dalu costau gofal personol.

Ceir pedair rhan i'r Lwfans sy'n ymdrin â gwahanol fathau o angen:

- Lwfans offer arbenigol
- Lwfans Cynorthwy-ydd nad yw'n feddygol
- Lwfans cyffredinol/treuliau eraill
- Costau teithio

6.1 Sut a phryd y dylech gyflwyno cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl?

Anogir myfyrwyr i gyflwyno cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl cyn dechrau eu cwrs gan iddi allu fod yn broses hir. Fel arfer mae ffurflenni cais ar gael oddi wrth noddwyr o fis Ebrill. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y Lwfans Myfyrwyr Anabl, cymhwyster a sut i gyflwyno cais yn y gwefannau canlynol:

- Myfyrwyr o Loegr: http://www.studentfinancedirect.co.uk
  Ffôn: 0845 607 7577 Minicom: 0845 604 4434
- Myfyrwyr o Gymru: http://www.studentfinancewales.co.uk/
  Ffôn: 0845 602 8845 Minicom 0845 603 1693
- Myfyrwyr o'r Alban: http://www.saas.gov.uk/
  Ffôn: 0845 111 1711

- Myfyrwyr o Ogledd Iwerddon: http://www.studentfinanceni.co.uk Ffôn: 0845 600 0662 Minicom 0845 604 4434
- Myfyrwyr nyrsio: http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?pid=12957&orgid=484 Ffôn: 029 2019 6167

6.2 Cyllid i fyfyrwyr rhan amser a/neu fyfyrwyr ôl-raddedig.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr rhan amser a myfyrwyr ôl-raddedig sy'n cyflwyno cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl gael llofnod rhywun yn y Brifysgol ar y ffurflen gais. Rydym yn falch o wneud hyn ar eich cyfer ar ôl i chi dderbyn cynnig ffurfiol o le ym Mhrifysgol Abertawe. Nodwch: os ydych yn fyfyriwr rhan amser bydd rhaid i chi astudio 50% neu fwy o'r rhaglen radd lawn amser gyfatebol i fod â hawl i dderbyn cyllid.

6.3 Myfyrwyr o'r UE a myfyrwyr rhyngwladol

Oherwydd newidiadau diweddar yn gyfarwyddyd llywodraeth y DU, gall fod yn bosibl bellach i fyfyrwyr o'r UE gyflwyno cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: dudalen newyddion: http://www.ukcosa.org.uk/student/index.php

Yn anffodus, nid oes gan Fyfyrwyr Rhyngwladol hawl i dderbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl. Rydym yn eich cynghori'n gryf i gysylltu â'ch llywodraeth gartref am gael gwybodaeth am gyllid. Am fwy o wybodaeth am y gwasanaethau cymorth a all fod ar gael i chi ym Mhrifysgol Abertawe, gweler yr adran yn y llyfryn hwn sy'n delio â myfyrwyr rhyngwladol.

7. Beth yw Asesiad Anghenion?

Gall y Gweithwyr Achos Anabledd roi cyngor i fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr ynglŷn â'r broses o gyflwyno cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl. Gallwn eich helpu hefyd i drefnu Asesiad Anghenion, os oes angen.

Ar ôl i'ch AALl neu'ch noddwr gytuno bod gennych hawl i dderbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl, byddant yn gofyn i chi gael Asesiad Anghenion. Mae gan Brifysgol Abertawe ei Chanolfan Asesu ei hun ar y campws, wedi'i lleoli yn Estyniad Adeilad Grove. Fodd bynnag, ceir nifer o Ganolfannau Asesu ledled y wlad.

Cynhelir yr asesiad mewn ystafelloedd hyfforddi ac asesu sy'n hollol hygyrch i bawb, ac mewn modd hamddenol a chefnogol. Bydd yr Aseswr eich holi ynghylch eich dulliau astudio a'r meysydd a her ynddynt i chi a bydd yn trafod dulliau fydd yn eich helpu i astudio. Ar ôl y sgwrs hon, bydd yr Aseswr yn dangos ac yn trafod gwahanol ddulliau o'ch cefnogi wrth i chi astudio, ac yn gwneud argymellion o ran defnyddio'ch Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Wedi i chi gael eich Asesiad Anghenion, bydd y Gweithwyr Achos Anabledd yn eich cynghori ar sut i drefnu a chael gafael ar y cymorth sydd wedi cael ei argymell. Rydym yn cynghori pob myfyriwr sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl i drefnu apwyntiad gyda Gweithiwr Achos Anabledd ar ôl yr asesiad neu yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf ar ôl dechrau yn y Brifysgol er mwyn trafod yr argymhellion o ran cymorth ac i sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer eich cwrs.

8. Gofal Personol ar gyfer myfyrwyr ag Anableddau.

Os ydych yn fyfyriwr y mae angen cymorth gofal personol arnoch, megis help i ymolchi, i ymwisgo, i fynd i'r tŷ bach, i goginio, i siopa, neu i gymdeithasu, cysylltwch ag un o'r Gweithwyr Achos Anabledd cyn gynted â phosibl i drafod eich anghenion, sut i ariannu'r math hwn o gymorth a pha opsiynau sydd ar gael i chi. Cofiwch fod trefnu'r math hwn o gymorth yn gallu fod yn broses hir ac mae'n bosibl iddo gymryd hyd at flwyddyn o waith cynllunio i sicrhau bod anghenion cymorth yn cael eu diwallu.

9. Profion Diagnostig ar gyfer Dyslecsia / Anawsterau Dysgu Penodol.

Rhaid i fyfyrwyr sydd wedi ymrestru yn y Brifysgol ac a fyddai'n hoffi cael prawf ar gyfer dyslecsia neu a fyddai'n hoffi cael adroddiad newydd gan seicolegydd addysgol, wedi'u trefnu drwy'r Swyddfa Anabledd, drefnu apwyntiad gyda Gweithiwr Achos Anabledd yn y lle cyntaf. Bydd y Gweithwyr Achos Anabledd yn esbonio'r broses i chi, y gost o gael adroddiad diagnostig a'r cyllid a all fod ar gael i helpu gyda'r gost hwn.

Os ydych yn cyflwyno cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl ac mae angen adroddiad diagnostig newydd arnoch, mae'n hanfodol i chi siarad â'ch AALl neu'ch noddwr a chael gwybod pa adroddiad y mae ei angen arnynt; er enghraifft, os yw'n adroddiad gan athro arbenigol, a oes angen i'r athro hwnnw fod yn gofrestredig gyda PATOSS.

Os nad ydych am gael asesiad diagnostig gan y Brifysgol, gallwch gysylltu â'r Sefydliad Dyslecsia yn: http://www.bps.org.uk/bps/e-services/find-a-psychologist/directory.cfm neu ffoniwch 0116 2549568 or email enquiries@bps.org.uk

10. Hyfforddiant Arbenigol

Mae gennym Diwtor Arbenigol llawn amser a thîm o Diwtoriaid sy'n gweithio ar eu liwt eu hun sy'n gallu darparu hyfforddiant o ran sgiliau astudio arbenigol. Mae'r Tiwtoriaid yn cynnig sesiynau unigol i fyfyrwyr ag anawsterau dysgu penodol gan gynnwys Syndrom Aspergers. Mae'r sesiynau hyn yn ymdrin ag amrywiaeth o sgiliau astudio, gan gynnwys:

- trefnu,
- darllen,
- mapio meddwl,
- ysgrifennu traethodau, adroddiadau gwyddonol neu draethodau estynedig,
- sillafu, gramadeg, atalnodi,
- prawf-ddarllen,
- adolygu, sgiliau arholiad,
- ymdopi â straen a dulliau ymlacio.

Mae pob sesiwn wedi cael ei theilwra'n benodol i gwrdd ag anghenion y myfyriwr ac i ddatblgu ei gryfderau er mwyn iddo allu llwyddo yn ei ddewis ddisgyblaeth.

Yn ogystal â hyfforddiant unigol, mae sesiynau astudio mewn grwpiau bach a grwpiau mawr ar gael.

11. Cynllun Cymryd Nodiadau a Gweithiwr Cymorth

Caiff y Cynllun Cymryd Nodiadau a Gweithiwr Cymorth ei redeg gan y Swyddfa Anabledd. Mae'r Cynllun wedi bod ar waith am sawl blwyddyn, ac mae wedi ehangu bellach i ddiwallu anghenion y nifer gynyddol o fyfyrwyr anabl yn y Brifysgol. Y llynedd, penodwyd mwy na chant o bobl i ddarparu cymorth o ran cymryd nodiadau.

Os oes angen Gweithiwr Cymorth arnoch neu os oes angen rhywun i gymryd nodiadau arnoch ac mae hyn wedi cael ei argymhell fel rhan o'ch Asesiad Anghenion, mae'n hanfodol i chi gysylltu â'r Swyddfa Anabledd cyn gynted â phosibl. Mae Gweithwyr Cymorth yn darparu ystod eang o gymorth o ran astudio er mwyn galluogi myfyrwyr i oresgyn unrhyw anawsterau sy'n codi wrth iddynt astudio. Fel arfer, mae Asesiad Anghenion myfyriwr yn nodi'r cymorth angenrheidiol ac yn argymhell y math o Weithiwr Cymorth y mae ei angen arnoch. Os nad oedd modd i chi gael Asesiad Anghenion, efallai, oherwydd nad oes gennych hawl i dderbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl, ond rydych yn credu bod angen help arnoch gan y Gwasanaeth Gweithwyr Cymorth, dylech gysylltu â'r Gweithwyr Achos Anabledd.

12. Iechyd Meddwl a Lles

Gallwch brofi ystod o bwysau newydd wrth i chi ymaddasu i newidiadau yn eich ffordd o fyw a'ch amgylchoedd. Gallwch gael cymorth oddi wrth y Cydlynydd Iechyd Meddwl a ydych yn profi cyfyngder meddwl ar hyn o bryd, a ydych wedi ei brofi cyn i chi ddechrau'r cwrs neu a ydych yn teimlo cyfyngder meddwl am y tro cyntaf pan ydych yma. Mae'r Cydlynydd Iechyd Meddwl yn darparu cymorth a chyfarwyddyd i fyfyrwyr sy'n profi anawsterau iechyd meddwl. Mae'r Cydlynydd Iechyd Meddwl hefyd yn helpu myfyrwyr i gael gafael ar gymorth perthnasol pan ydynt yn y Brifysgol. Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth unrhyw bryd yn ystod eich gyrfa academaidd. Mae nifer o fyfyrwyr sy'n profi anhawsterau iechyd meddwl yn ei gael yn ddefnyddiol i gwrdd â'r Cydlynydd Iechyd Meddwl cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gyrraedd. Mae'r cymorth a gynigir yn hyblyg ac wedi'i deilwra i ddiwallu'ch anghenion penodol. Gall gynnwys cyswllt rheolaidd, cysylltiad â'ch adran academaidd i helpu i sicrhau eich bod yn cael unrhyw addasiadau rhesymol a all fod yn briodol a/neu gysylltiad â'ch Meddyg Teulu neu'ch Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.

Hefyd, mae gan y Brifysgol Wasanaeth Cynghori ar y campws. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr yn: www.swansea.ac.uk/counselling/ neu ffoniwch 01792 295592 neu e-bostiwch: student.counselling@swansea.ac.uk

13. Trefniadau Arholiad Amgen

Os oes angen darpariaeth benodol ar gyfer arholiadau, nodwch fod rhaid i chi hysbysu'r Swyddfa Anabledd a'r Swyddfa Arholiadau cyn gynted â phosibl ar ôl i chi ymrestru. Os oes gennych anhawster dysgu penodol, bydd angen cael Adroddiad gan Seicolegydd Addysgol gydag argymhellion. O ran cyflyrau eraill, bydd angen cael tystysgrif feddygol neu Asesiad Anghenion.

Gall eich Asesiad o Anghenion a/neu Asesiad Diagnostig gynnwys manylion o drefniadau y mae eu hangen arnoch wrth sefyll arholiadau. Gallent gynnwys:

- Amanuensis (ysgrifennydd)
- Amser ychwanegol neu gyfnodau o orffwys
- Papur arholiad mewn fformat amgen
- Defnydd o gyfrifiadur
- Defnydd o ystafell breifat

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw ceisio trefniadau arbennig erbyn **diwrnod olaf tymor ym mis Rhagfyr ar gyfer arholiadau Semester Un a diwedd yr wythnos gyntaf ym mis Mai ar gyfer arholiadau Semester Dau**. Os nad ydych wedi gwneud trefniadau erbyn y terfyn amser hwn, byddwch yn sefyll eich arholiadau gyda phobl eraill ac heb gymorth. Os nad ydych wedi gwneud y trefniadau erbyn y terfyn amser hwn ac rydych yn meddwl bod y diffyg cymorth wedi effeithio ar eich perfformiad yn yr arholiadau, gallwch wneud cais am amgylchiadau arbennig. Gwelwch y Llawlyfr Academaidd a siaradwch â'ch adran am ragor o gyngor a chyfarwyddyd ar sut i gyflwyno cais.

Os ydych wedyn wedi dioddef anaf dros dro e.e. coes wedi'i dorri a allai achosi anhawsterau i chi mewn sefyllfa arholiadau ffurfiol, dylech gysylltu â'r Swyddfa Arholiadau cyn gynted â phosibl gyda'r ddogfennaeth feddygol anghenrheidiol.

14. Myfyrwyr Rhyngwladol

Mae Prifysgol Abertawe yn croesawu ceisiadau gan Fyfyrwyr Rhyngwladol, ac mae ganddi gymuned ffyniannus o fyfyrwyr rhyngwladol ar ei chyrsiau israddedig ac ôl-raddedig.

Yn anffodus, nid oes gan Fyfyrwyr Rhyngwladol hawl i dderbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl. Yn lle hynny, dylech gysylltu â'ch llywodraeth gartref am wybodaeth am unrhyw gyllid a all fod ar gael i chi fel myfyriwr ag anabledd neu gyflwr meddygol.

Mae'r Swyddfa Anabledd yn cynghori Myfyrwyr Rhyngwladol yn gryf i gysylltu â ni cyn iddynt gyflwyno cais ffurfiol i'r Brifysgol. Bydd hyn yn rhoi amser i chi i archwilio a deall yn llawn y cymorth y bydd ei angen arnoch ac i ba raddau y mae modd i ni ei ddarparu. Gallwn drafod y gwahanol opsiynau cymorth â chi, ac rhoi syniad realistig i chi am unrhyw gostau.

Er bydd Prifysgol Abertawe yn gwneud pob ymdrech rhesymol i ddarparu cymorth ac i'ch helpu gwneud un fawr o'r cymorth hwnnw, gall cyfyngiadau ariannol a chyfyngiadau eraill ei wneud yn amhosibl i ni allu gwarantu y bydd pob gwasanaeth ar gael i bob myfyriwr bob amser ac heb gyfyngiad.

Hyd yn oed os nad oes modd cael unrhyw arian ychwanegol i dalu costau cymorth eich anabledd neu'ch cyflwr meddygol, bydd y Swyddfa Anabledd yn gallu darparu'r mathau canlynol o wasanaethau cymorth:

- Cymorth gan y Gweithwyr Achos Anabledd
- Cysylltiad gan Weithiwr Achos Anabledd ag adrannau dysgu ynghylch darparu deunydd cwrs/taflenni mewn fformat addas
- Papurau arholiad mewn print mawr neu mewn braille lle bynnag y bo'n bosibl
- Recordio darlithoedd a seminarau ar dâp
- Cael benthyg cyfyngedig o offer e.e. Dictaphones
- Defnydd o gyfrifiadur, darllenydd neu ysgrifennydd mewn arholiadau
- Ystod o wasanaethau arbennig yn y Llyfrgell

15. Sut i gysylltu â ni:

Mae'r Swyddfa Anabledd yn defnyddio system o apwyntiadau. Cysylltwch â derbynnydd Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn yr Adeilad Keir Hardie i drefnu amser cyfleus i gwrdd â ni neu, os nad ydym ar gael, gadewch neges a byddwn yn eich ffonio'n ôl. Gellir cysylltu â'r Swyddfa Anabledd, fel a ganlyn:

Swyddfa Anabledd
Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr
Adeilad Keir Hardie
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe SA2 8PP

Ffôn: (01792) 602000
Ffacs: (01792) 513200/295090
E-bost: disability@swansea.ac.uk

Canolfan Asesu a Hyfforddi
Estyniad Adeilad Grove
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe SA2 8PP

Ffôn: (01792) 513000
E-bost: Disability@swansea.ac.uk

Ffacs: (01792) 513200/295090
Gwefan: www.swansea.ac.uk/study/current/StudentSupportServices/DisabilityOffice

Os ydych am gael y llyfryn hwn mewn fformat amgen, cysylltwch â'r Swyddfa Anabledd.